OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 373 (Cy.33)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*13 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*14 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**2**) at ddibenion yr adran honno ynghylch mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007, a deuant i rym ar 14 Chwefror 2007.

Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**4**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) yn lle'r diffiniadau o offerynnau'r Gymuned sy'n ymddangos yn syth ar ôl y diffiniad o "mangre" rhodder yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor y diffiniadau canlynol—

> "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran nifer ac enwau Paneli Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).
(**4**) O.S. 2006/31 (Cy.5), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/1534 (Cy.151).

2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*"), "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*"), "Rheoliad 575/2006" ("*Regulation 575/2006*"), "Rheoliad 776/2006" ("*Regulation 776/2006*"), "Rheoliad 1662/2006" ("*Regulation 1662/2006*"), "Rheoliad 1663/2006" ("*Regulation 1663/2006*"), "Rheoliad 1664/2006" ("*Regulation 1664/2006*"), "Rheoliad 1665/2006" ("*Regulation 1665/2006*"), "Rheoliad 1666/2006" ("*Regulation 1662/2006*") a "Rheoliad 1791/2006" ("*Regulation 1791/2006*") yr ystyr a roddir iddynt yn eu trefn yn Atodlen 1;".

(3) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth y Gymuned) rhodder yr Atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

13 Chwefror 2007

(**5**) 1998 p.38.